Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Jeremy Isaac and Associates, Baglan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Dyddiad arolygu: 3 Rhagfyr 2018

Dyddiad cyhoeddi: 4 Mawrth 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhydycar**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@gov.wales**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78964-965-9



© Hawlfraint y Goron 2019

# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym........ 7

Ansawdd profiad y claf ........8

Darparu gofal diogel ac effeithiol ........13

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........20

4. Beth nesaf? ........ 23

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol........ 25

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........26

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol........27

Atodiad C – Cynllun gwella........28

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn a wnawn**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith, ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Jeremy Isaac and Associates, Baglan yn 80 Fairwood Drive, Port Talbot, SA12 8NU, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 3 Rhagfyr 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Baglan yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y cleifion. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref ac roedd y polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith i gefnogi'r cleifion a'r staff.

Roedd y practis, ffeiliau'r staff a gwybodaeth am y practis yn cael eu cynnal i safon uchel.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd tystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis yn rheoli ac yn arwain yn gadarn
- Cafwyd adborth cadarnhaol gan y cleifion a oedd yn nodi eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarperir
- Roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod offer yn cael eu cadw i safon uchel.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis rannu canlyniadau adborth â'r cleifion.
- Rhaid i'r practis gyflawni rhywfaint o fân atgyweiriadau er mwyn sicrhau bod y deintyddfeydd yn cydymffurfio â'r canllawiau cyfredol.
- Rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw yn unol â safonau proffesiynol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Jeremy Isaac and Associates, Baglan yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Baglan ym Mhort Talbot. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys rheolwr practis, tri deintydd, pum nyrs ddeintyddol, tair nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant a derbynnydd.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod Practis Deintyddol Baglan yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn. Hefyd, dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y staff yn y practis deintyddol yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth ar gael yn y practis er mwyn helpu'r cleifion i wneud dewisiadau effeithiol ynglŷn ag iechyd da yn y geg ac opsiynau triniaeth yn ôl yr angen.

Yn ystod ein harolygiad, dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 40 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis ers mwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron mae'r canlynol:

> *"Mae'r staff yma bob amser yn gymwynasgar a chyfeillgar – does dim byd yn ormod o drafferth. Ni fyddwn yn petruso argymell y practis hwn"*
>
> *"Mae'r staff i gyd yn gymwynasgar a chwrtais iawn – cyngor gwych yn cael ei roi bob amser. Rwy'n mwynhau mynd at y deintydd, a dweud y gwir. Da iawn bawb"*
>
> "*Y deintydd gorau o ran gofal personol – o bell ffordd. Mae'r staff bob amser yn fwy na pharod i helpu a gwneud eu gorau glas i drefnu apwyntiad i chi mewn argyfwng. Glân a phroffesiynol iawn bob amser"*

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo; roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

*"Ie, bod yn fwy clir ynglŷn â'r costau. Dylai gael ei arddangos ar fyrddau neu'n agos at ddesgiau'r dderbynfa, boed yn gostau'r GIG neu'n gostau preifat"*

## Cadw'n iach

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gwelsom fod ystod eang o wybodaeth ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros am driniaethau preifat a thriniaethau'r GIG, yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am iechyd y geg i oedolion a phlant. Roedd hon yn enghraifft dda o'r practis yn helpu cleifion i fynd ati eu hunain i gynnal iechyd a hylendid y geg.

## Gofal gydag urddas

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis. Dywedodd un claf wrthym:

*"Drwy gydol fy ymweliad â'r practis, mae proffesiynoldeb pob aelod o'r staff yn wych. Mae pawb yn gwenu'n gynnes ac yn groesawgar yn y dderbynfa a'r deintyddfeydd. Mae'r driniaeth yn cael ei hesbonio ac mae'r staff yn gwneud yn siŵr eich bod yn ei deall cyn ei chwblhau. Da iawn chi – daliwch ati!"*

Dywedodd y staff wrthym, petai angen cael sgwrs breifat â chlaf, y byddent yn mynd ag ef i ddeintyddfa wag pan fo un ar gael. Gwelsom fod gan y practis bolisi preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd.

Roedd gan y practis bolisïau priodol hefyd i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Nodwyd gennym fod 9 Egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[1] ar gael i gleifion yn y dderbynfa. Mae'r egwyddorion hyn yn

[1] https://standards.gdc-uk.org/

gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

### Gwybodaeth i gleifion

Lle y bo'n berthnasol, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth, cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny. Dywedodd pob un ond un o'r cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth sydd ar gael.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym hefyd eu bod wedi cael eu hysbysu am gost unrhyw driniaeth bob amser cyn iddynt gael y driniaeth.

Gwelsom fod y daflen wybodaeth i gleifion ar gael i gleifion ar gais, a'i bod yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr am y practis. Gwelsom bosteri yn arddangos costau triniaethau preifat a ffioedd triniaethau'r GIG yn yr ardal aros, yn ogystal â nifer o daflenni am driniaethau deintyddol er mwyn helpu'r cleifion i wneud penderfyniadau gwybodus am iechyd y geg ac opsiynau triniaeth. O ystyried yr adborth a roddwyd yn yr holiaduron cleifion, efallai y bydd y practis am ystyried tynnu sylw'r cleifion at y rhestrau prisiau wrth iddynt gyrraedd, neu symud y rhestrau i leoliad mwy amlwg.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Er bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael, yn Saesneg yn unig roedd y wybodaeth hon gan amlaf, ac nid oedd unrhyw siaradwyr Cymraeg hysbys. Gan fod y gwasanaeth yng Nghymru, dylid gwneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg a helpu'r staff i wneud 'Cynnig Rhagweithiol'[2].

## Gofal amserol

---

[2] Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano. https://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy

Dywedodd chwarter y cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau petai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd gwybodaeth am sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'i harddangos wrth fynedfa'r practis ac yn cael ei rhoi fel rhan o neges peiriant ateb y practis.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn ei chael hi'n “hawdd iawn” neu'n “eithaf hawdd” cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau y câi'r cleifion eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym, petai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf oedd yn aros am unrhyw oedi ac yn caniatáu iddynt aildrefnu petai angen iddynt wneud hynny.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi bod yr opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi ar bob un o'r cofnodion a welsom. Dangosodd hyn fod cleifion yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau am eu hopsiynau triniaeth.

### Hawliau pobl

Roedd pobl sy'n defnyddio cadair olwyn yn gallu cael mynediad i'r practis drwy'r fynedfa gefn, ac roedd y deintyddfeydd a'r ardal aros ar y llawr gwaelod. Roedd y toiled i gleifion yn gul iawn ac, felly, nid oedd yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Nodwyd bod sawl polisi ar waith i gefnogi staff a chleifion, gan gynnwys polisi derbyn cleifion a pholisi cyfle cyfartal.

### Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis daflen sgorio y gallai'r cleifion ei defnyddio i roi sgôr i'r gwasanaeth roeddent wedi'i gael a gadael sylwadau. Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn hysbysu'r cleifion am unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r sylwadau.

Gwelsom fod polisi cwynion ar waith a oedd yn cydymffurfio â rhaglen Gweithio i Wella[3] y GIG a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Roedd y cofnodlyfr cwynion yn gynhwysfawr ac yn nodi'r achosion fel yr oeddent wedi digwydd.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis rannu canlyniadau'r holiaduron â'r cleifion.

[3] http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/932/Healthcare%20Quality%20-%2030166_Putting%20Things%20Right_a5%20leaflet_Welsh_WEB%20VERSION%20-%20FINAL%20-%202017%2003%20011.pdf

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Roedd yr amgylchedd yn cael ei gynnal i safon dda.

Gwelsom fod y cyfleusterau clinigol yn cynnwys adnoddau digonol a bod trefniadau ar waith i drin cleifion yn ddiogel.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cadw yn unol â chanllawiau proffesiynol.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn neu'n gymharol lân.

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef. Roedd yn ymddangos bod y tu allan i'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac, ar y tu mewn, roedd yr adeilad yn olau, yn daclus ac yn cael gofal da.

Gwelsom fod nifer o bolisïau ar waith mewn perthynas ag addasrwydd y fangre, gan gynnwys polisi iechyd a diogelwch a pholisi wrth gefn mewn argyfwng. Roedd polisïau ac asesiadau risg ar gael yn hawdd i bob aelod o'r staff. Roedd asesiad risg amgylcheddol ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r staff a'r cleifion.

Gwelsom fod polisïau newydd yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm ac yna y byddai'r staff yn cytuno iddynt. Golygai hyn fod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith i'w cefnogi yn eu rolau.

Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a gwelsom fod yr holl offer diogelwch tân wedi cael eu gwasanaethu yn

ystod y 12 mis diwethaf. Roedd dwy o'r dyfeisiau diffodd tân yn sefyll ar eu pen eu hunain wrth ymyl llwybrau prysur i mewn i'r ystafell ddihalogi. Dylai'r practis sicrhau bod y rhain yn cael eu rhoi'n sownd yn briodol, yn unol â chanllawiau'r DU. Roedd asesiad risg diogelwch tân ar waith yn y practis yn ogystal â pholisi tân, gan olygu bod y staff yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Hefyd, roedd gan y practis aelodau o staff a oedd wedi cael eu hyfforddi'n briodol.

Roedd contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig) yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n briodol.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002[4], mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis brotocol 'Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd' (COSHH), polisi ar gyfer trin a thrafod mercwri a phecyn gollyngiadau mercwri.

Yr hyn sydd angen ei wella

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell ddynodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol yn y ddeintyddfa, fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05[5]. Roedd yr ystafell i'w gweld yn lân ac yn daclus. Gwelsom fod cofnodion profi cynhwysfawr ar gyfer

[4] http://www.hse.gov.uk/foi/internalops/ocs/200-299/273_20/

[5] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

yr awtoclaf[6]. Roedd y gwiriadau gwasanaethu a chynnal a chadw ar gyfer yr awtoclaf yn gyfredol ac yn dangos ei fod yn effeithiol ac yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Gwelsom fod polisi rheoli heintiau a pholisi ar ddiogelwch offer miniog ar gyfer y staff, sy'n golygu bod y staff a'r cleifion yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol rhag anafiadau a heintiau a achosir gan nodwyddau.

Roedd y deintyddfeydd yn amlwg yn lân ac yn daclus ac roedd gan y practis amserlen lanhau ddyddiol i'r staff ei dilyn er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt yn cael eu cadw yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05[7]. Gwelsom fod angen gwaith atgyweirio mewn rhannau bach o'r ddeintyddfa flaen, fel twll bach mewn wal, a bod angen atgyweirio'r sêl rhwng y wal a'r wyneb gweithio er mwyn atal llwch a malurion a sicrhau y gellir glanhau'n effeithiol. Rhaid i'r practis sicrhau y caiff y rhain eu hatgyweirio yn unol â WHTM 01-05.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth wneud gwaith dihalogi, ac roedd prif nyrs ddynodedig a oedd yn gyfrifol am ddihalogi yn y practis.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar reoli heintiau. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y practis wedi cynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn unol â WHTM 01-05.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B er mwyn amddiffyn y cleifion a nhw eu hunain yn erbyn yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

---

[6]Defnyddir awtoclafau at ddibenion meddygol er mwyn sterileiddio cyfarpar.

[7] www.wales.nhs.uk/sites3/documents/254/**WHTM 01-05** Revision 1.pdf

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud mân waith atgyweirio i'r ddeintyddfa flaen er mwyn sicrhau y caiff ei chynnal a'i chadw yn unol â WHTM 01-05.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion, gan gynnwys polisi dadebru ac argyfyngau meddygol. Roedd pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y deuddeg mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR).

Roedd gan y practis y cyffuriau argyfwng a'r offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)[8]. Fodd bynnag, roedd yr adnoddau argyfwng yn cael eu cadw mewn locer bach ar lefel y llawr, yn union y tu ôl i ddrws i'r ystafell ddihalogi. Gwnaethom gynghori y gallai hyn atal mynediad cyflym ac effeithiol at yr adnoddau, ac y dylid eu symud i le haws cyrraedd ato.

Roedd pecyn cymorth cyntaf y practis yn gyflawn ac roedd dyddiadau defnyddio'r eitemau yn addas. Roedd y practis wedi penodi dau swyddog cymorth cyntaf, gan sicrhau y cai'r staff a'r cleifion gymorth cyntaf priodol pe byddai damwain neu anaf.

Roedd gan y practis bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith ac roedd yr holl staff wedi cytuno arnynt, er mwyn sicrhau bod modd cael gafael ar feddyginiaethau yn ogystal â'u trin, eu defnyddio, eu storio a'u gwaredu yn briodol. Dywedwyd wrthym fod yr holl ddigwyddiadau niweidiol yn ymwneud â chyffuriau yn cael eu cofnodi drwy gynllun Cerdyn Melyn MHRA[9].

---

[8] Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu

[9] https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/

## Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu perthnasol.

Roedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant priodol ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Gwnaethom awgrymu bod swyddog diogelu arweiniol y practis yn ystyried ymgymryd â hyfforddiant diogelu lefel uwch er mwyn sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r ddealltwriaeth briodol o faterion diogelu i weithredu fel swyddog arweiniol.

## Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom fod cyfarpar priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd yr offer radiolegol (pelydr-X) mewn cyflwr da ac roedd yr ardaloedd rheoledig wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn cael ei chadw'n gyfredol, ac roedd yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol. Gwelsom fod y rheolau lleol[10] wedi'u harddangos yn y deintyddfeydd.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[11] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)[12] 2000, roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

Roedd tystiolaeth bod archwiliadau radiograffeg rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau bod y cyfarpar radiograffeg yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn ddiogel.

---

[10] Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

[11] Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

[12] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod nifer o archwiliadau clinigol ar waith yn y practis er mwyn helpu i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol.

Roedd datganiad o ddiben y practis yn nodi'r trefniadau priodol ar gyfer derbyn, asesu, diagnosio a thrin cleifion. Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i ategu'r swyddogaethau hyn.

Gwelsom dystiolaeth drwy gydol y dydd fod canllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol, megis NICE[13], yn cael eu hystyried a'u dilyn lle y bo'n briodol.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedwyd wrthym bod gan y deintyddion broses ar gyfer trafod materion clinigol a materion sy'n ymwneud â'r practis â'i gilydd, er mwyn i'r deintyddion gefnogi a gwella eu sgiliau a rhannu'r hyn a ddysgir ganddynt.

Dywedwyd wrthym bod y practis wedi defnyddio adnodd datblygu practisau ‘Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth’ Deoniaeth Cymru[14]. Mae'r ‘Adnodd Matrics Aeddfedrwydd’ yn adnodd datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar sut maent yn gweithio.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod gwybodaeth am y cleifion yn cael ei storio mewn cypyrddau ffeilio y tu ôl i ddesg y dderbynfa. Fodd bynnag, nid oedd modd cloi'r cypyrddau hyn. Er mwyn sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei diogelu, dylai gwybodaeth gael ei storio'n ddiogel. Roedd gan y practis bolisi rheoli cofnodion.

---

1. [13] https://www.**nice**.org.uk/.../**oral-and-dental-health**

[14] https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry

Roedd copïau wrth gefn o gofnodion electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd i amddiffyn gwybodaeth cleifion ac atal colled.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel.

## Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion. Gwelsom fod y cofnodion o safon dda ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom fod bylchau yn y cofnodion mewn nifer o achosion, yn bennaf yn y meysydd canlynol:

- Manylion presgripsiynau
- Atgyfeiriadau at ysbytai a gofal eilaidd, er mwyn galluogi'r practis i gadw cofnod a chymryd camau dilynol mewn perthynas â chleifion a rhoi cymorth iddynt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom dystiolaeth o ddulliau rheoli ac arwain da yn y practis.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith yn y practis, ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu bob blwyddyn, a gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi'u darllen.

Roedd gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er budd staff, gan gynnwys proses flynyddol ar gyfer arfarnu staff a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Practis Deintyddol Baglan yn rhan o grŵp Jeremy Isaac and Associates o bractisau deintyddol. Jeremy Isaac sy'n cyflawni rôl yr unigolyn cyfrifol[15].

Rheolwr y practis yw'r rheolwr cofrestredig[16] ac mae hefyd yn rheoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod trefniadau arwain da ar waith yn y practis a bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

---

[15] Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli;

Roedd amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Daflen Wybodaeth i Gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei bod yn ymwybodol o'i dyletswyddau o ran yr hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb y rheolwr cofrestredig neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig, y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC[17].

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar eu cyfer. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis yn cael ei harddangos yn y dderbynfa.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Roedd gan y practis nifer o bolisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol, gan gynnwys polisi recriwtio. Roedd y staff hefyd yn cael arfarniadau rheolaidd ac roedd gan bob aelod o'r staff gynlluniau datblygu personol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos tystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac a oedd yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

---

[16] Ystyr “rheolwr cofrestredig” yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o'r Ddeddf fel rheolwr practis deintyddol preifat

[17] O dan reoliadau 25-29 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, rhaid i'r darparwr cofrestredig hysbysu AGIC am ddigwyddiadau pwysig, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb y rheolwr cofrestredig neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd yn rheolaidd. Gwelsom gofnodion y cyfarfodydd hyn ac roedd staff na allant fod yn bresennol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan reolwr y practis.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff.

# 5. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 6. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae’r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

### Gwasanaeth:

### Dyddiad arolygu:

### Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd | Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn | | | | |
| | | | | |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Teitl swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Baglan

## Dyddiad arolygu: 03 Rhagfyr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| | 1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd; | | | |
| | 4.1 Gofal Gydag Urddas; | | | |
| | 4.2 Gwybodaeth i Gleifion; | | | |
| | 3.2 Cyfathrebu'n | | | |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | effeithiol; | | | |
| | 5.1 Mynediad amserol; | | | |
| | 6.1 Cynllunio Gofal er mwyn hyrwyddo annibyniaeth; | | | |
| | 6.2 Hawliau pobl; | | | |
| Rhaid i'r practis rannu canlyniadau'r holiaduron â'r cleifion | 6.3 Gwrando a Dysgu o adborth, Adran 16 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 | Mae'r practis yn casglu adborth o holiaduron yn yr ardal aros, cyfryngau cymdeithasol a Google. Byddwn yn rhannu'r canlyniadau drwy sleid 'dywedoch chi, gwnaethom ni' ar ein cyflwyniad PowerPoint bob chwarter. | Sarah Phillips | Chwefror 19 |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| | 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; | | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod y deintyddfeydd yn | 2.4 Atal a Rheoli | Ailosod silicon ar ardal fach lle mae'r wyneb | Sarah Phillips | Chwefror 19 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| cael eu cynnal a'u cadw yn unol â WHTM 01-05. | Heintiau a Dihalogi,<br><br>WHTM 01-05 | gweithio yn cysylltu â'r wal.<br><br>Mae twll bach o dan y cypyrddau yn bwynt mynediad gwasanaeth ar gyfer pibell aer/dŵr ar gyfer darn o offer deintyddol. | | |
| | 2.6 Rheoli Meddyginiaethau; | | | |
| | 2.7 Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg; | | | |
| | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol; | | | |
| | 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol; | | | |
| | 3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi; | | | |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel. | 3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu;<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017, Adran 20 | Mae angen cloeon diogel ar y cypyrddau ffeilio y tu ôl i'r dderbynfa. Cyn penderfynu gosod y cloeon hyn, bydd angen ystyried trosglwyddo i system ddi-bapur a fyddai'n golygu bod llai o gofnodion papur yn cael eu cadw. | Sarah Phillips | Chwefror 19 |
| Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. | 3.5 Cadw cofnodion; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017, Adran 20 | Presgripsiynau: caiff pob presgripsiwn a roddir ei gofnodi yn nodiadau'r cleifion. Mae taenlen wedi'i llunio sydd ar gael ar fwrdd gwaith y cyfrifiaduron er mwyn crynhoi'r presgripsiynau a roddir gan gynnwys rhifau cyfeirnod.<br>Atgyfeiriadau: mae system e-atgyfeirio newydd yn y broses o gael ei chyflwyno o fewn y Bwrdd Iechyd Lleol. Pan fydd y system hon wedi'i rhoi ar waith, bydd yn gweithredu fel gweithdrefn archwilio/gwirio | Sarah Phillips/ pob ymarferydd deintyddol cyffredinol<br>Sarah Phillips/pob ymarferydd deintyddol cyffredinol | Cwblhawyd<br>Nodwyd ym mhwyllgor y pwyllgor deintyddol lleol y caiff hyn ei roi ar waith erbyn mis Mawrth 2019 |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd; | | | |
| | 7.1 Gweithlu; | | | |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth: Practis Deintyddol Baglan/ Jeremy Isaac**

**Enw (llythrennau bras): Sarah Phillips**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 15/2/2019**